

# The Electoral Commission

## **Llawlyfr y Cyfryngau**

**Etholiadau Llywodraeth Leol Cymru a  
Lloegr**

**Dydd Iau 4 Mai 2017**

**Mawrth 2017**

# Cysylltiadau'r cyfryngau ac adnoddau

## Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol

Llundain:

Mazida Khatun, Megan Phillips a Lisa Camps

020 7271 0704

[press@electoralcommission.org.uk](mailto:press@electoralcommission.org.uk)

Cymru:

Laura Ward

02920 346810

[gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)

Oriau y tu allan i'r swyddfa: 07789 920 414

Dilynwch ni ar ein [cyfrif Twitter corfforaethol](#) a'n [cyfrif Ymgyrch](#)

Hoffwch ni ar [Facebook](#)

Darllenwch ein [Blog](#)

## Swyddfa'r wasg yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

**Ar gyfer ymholiadau ynghylch etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol:**

030 3444 1201

[newsdesk@communities.gsi.gov.uk](mailto:newsdesk@communities.gsi.gov.uk)

## Gwefannau

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

Mae gan wefan y Comisiwn adran benodedig ar gyfer newyddiadurwyr sy'n cynnwys newyddion a safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol - gan gynnwys ein datganiadau i'r wasg. Mae gan ein gwefan wybodaeth am roddion pleidiau gwleidyddol yn y cyfnod cyn yr etholiad ac ardal 'Canllawiau' gyda gwybodaeth i ymgeiswyr a'r rhai sy'n gweinyddu'r etholiad.

<http://www.fymhleidlaisi.co.uk>

Mae'r wefan hon yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am sut i gofrestru a phleidleisio a ffurflenni y gallant eu hargraffu i gofrestru a gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Mae'n cynnwys cyfleuster chwilio am god post sy'n galluogi pobl i ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer eu swyddfa cofrestru etholiadol leol a chyfleuster rhyngweithiol yn dangos gorsaf bleidleisio.

[www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio)

Dyma'r wefan lle gall y cyhoedd gofrestru i bleidleisio ar-lein. Mae'n gyflym ac yn hawdd i'w defnyddio. Ers ei lansio ym mis Mehefin 2014, mae miliynau o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi cael eu cyflwyno. **Rydym yn annog ei defnyddio mewn cymaint o erthyglau â phosibl am yr etholiad fel bod eich darllenwyr yn gwybod ble y gallant gofrestru.**

## **Cynnwys**

- |   |  |           |
|---|--|-----------|
| 1 | Rolau a chyfrifoldebau yn etholiadau Mai 4 | Tudalen 3 |
| 2 | Amserlen etholiadau Mai 2017               | Tudalen 6 |

## **ADRAN A - Ymgeiswyr ac ymgyrchu**

- |   |   |            |
|---|---|------------|
| 3 | Dod yn ymgeisydd  | Tudalen 8  |
| 4 | Yr ymgyrchoedd etholiadol                               | Tudalen 11 |
| 5 | Terfynau gwario ymgeiswyr a rheolau ar dderbyn rhoddion | Tudalen 12 |
| 6 | Twyll etholiadol  | Tudalen 15 |

## **ADRAN B - Y pleidleisiwr**

- |    |  |            |
|----|--|------------|
| 7  | Cofrestru i bleidleisio                        | Tudalen 19 |
| 8  | Y broses bleidleisio                           | Tudalen 20 |
| 9  | Herio'r canlyniad                              | Tudalen 24 |
| 10 | Codi ymwybyddiaeth o gofrestrriad pleidleiswyr | Tudalen 25 |

## **ADRAN C - Digwyddiadau cyfrif**

- |    |  |            |
|----|--|------------|
| 11 | Sut mae'r broses gyfrif yn gweithio a datgan y canlyniadau | Tudalen 27 |
|----|--|------------|

# 1 Pwy yw pwy yn etholiadau 4 Mai a'u cyfrifoldebau

Mae'r digwyddiadau pleidleisio canlynol yn cael eu cynnal ar 4 Mai 2017:

- etholiadau prif ardal llywodraeth leol (h.y. etholiadau dosbarth, bwrdeistref, bwrdeistref sirol ac awdurdod unedol)
- etholiadau maerol awdurdod lleol yn Lloegr
- etholiadau maerol awdurdod cyfunol yn Lloegr
- etholiadau cynghorau plwyf a chymuned (**ni chaiff y rhain eu cwmpasu yn y llawlyfr hwn**)

Cynhelir etholiadau maerol awdurdod cyfunol am y tro cyntaf. Cânt eu cynnal yn y llefydd canlynol:

- Caergrawnt a Peterborough
- Manceinion Fwyaf
- Rhanbarth Dinas Lerpwl
- Dyffryn Tees
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Gorllewin Lloegr

**Noder:** Bydd maer Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf yn ymgymryd â swyddogaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar gyfer yr ardaloedd Awdurdod Cyfunol eraill, lle y bydd rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn parhau fel ag y mae.

Gellir gweld yr etholiadau eraill sy'n digwydd [yma](#).

## 1.1 Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs yn Saesneg) yn gyfrifol am baratoi a chynnal y cofrestrau etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn eu hardal. Rhaid iddynt sicrhau bod y cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosibl.

## 1.2 Swyddog Canlyniadau

### Swyddog Canlyniadau Llywodraeth Leol

Y Swyddog Canlyniadau Llywodraeth leol sy'n gyfrifol yn bersonol am gynnal yr etholiad llywodraeth leol, gan gynnwys y broses enwebu, cyfrif y pleidleisiau a datgan y canlyniad.

**Os bydd etholiad maerol awdurdod cyfunol bydd hefyd:**

### Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol

Mae Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol ar gyfer pob un o'r ardaloedd awdurdod cyfunol lle y cynhelir etholiadau maerol. Mae rhestr o'r rhain ar gael [yma](#).

Mae pob Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol yn gyfrifol am drefn cynnal etholiad Maerol Awdurdod Cyfunol yn ei ardal, ac am gysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn ei ardal a chyd-drefnu eu gwaith.

Y Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol sy'n gyfrifol am y broses enwebu ac am gyfrifo a datgan canlyniad yr etholiad. Bydd y Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol yn cysylltu â Swyddogion Canlyniadau Lleol ac yn cyd-drefnu eu gwaith yn ei ardal awdurdod cyfunol, ac mae ganddo'r pŵer hefyd i roi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau Lleol o ran cyflawni eu swyddogaethau yn yr etholiad.

### **Swyddog Canlyniadau Lleol**

Y Swyddog Canlyniadau Lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad maerol awdurdod cyfunol yn lleol. Mae'n gyfrifol am weinyddu'r modd y cynhelir yr etholiad, cyhoeddi ac agor papurau pleidleisio drwy'r post a chyfrif y pleidleisiau ar gyfer ei ardal bleidleisio.

### **1.3 Swyddogion Llywyddu**

Penodir Swyddogion Llywyddu gan Swyddogion Canlyniadau Llywodraeth leol a Swyddogion Canlyniadau Lleol i fod yn gyfrifol am orsafoedd pleidleisio. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys trefnu cynllun yr orsaf bleidleisio, goruchwyllo clerod pleidleisio, rhoi papurau pleidleisio, helpu pleidleiswyr, rhoi cyfrif am bob papur pleidleisio a sicrhau y caiff blychau pleidleisio eu cludo'n ddiogel i leoliad y cyfrif.

### **1.5 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol**

Sefydlodd Deddf Datganoli Dinasoedd a Llywodraeth Leol 2016 y broses o ethol maerau awdurdod cyfunol, gan roi cyfrifoldebau i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn cynnwys:

- Pennu'r rheolau ar gyfer yr etholiadau
- Pennu'r terfynau gwario ar gyfer ymgeiswyr yn yr etholiadau

Bydd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol hefyd yn cynnal ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer yr ardaloedd hynny lle y cynhelir yr etholiadau maerol awdurdod cyfunol.

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth leol sy'n gyfrifol am y polisi mewn perthynas ag etholiadau maerol awdurdod cyfunol a bydd yn cefnogi'r etholiadau drwy gynnal ymgyrch cyhoedduswydd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg pleidleiswyr.

### **1.6 Y Comisiwn Etholiadol**

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.. Ein rôl yn etholiadau mis Mai yw:

- llunio canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Canlyniadau Awdurdod Cyfunol, pennu safonau perfformiad a rhoi gwybod pa mor dda y maent wedi ei wneud
- llunio canllawiau ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a'u hasiantiaid
- llunio canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- cofrestru pleidiau gwleidyddol
- cyhoeddi manylion ynghylch ble y mae ymgeiswyr yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario
- hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o gofrestrriad pleidleiswyr
- rhoi gwybod am y drefn o gynnal yr etholiad
- cyhoeddi manylion ynghylch ble y mae pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario
- hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiadau a sut i gymryd rhan ynddynt;
- rhoi gwybod am y drefn o gynnal yr etholiad

## 2 Amserlen ar gyfer etholiadau ar 4 Mai 2017

Digwyddiad	Etholiad	Dyddiad (dyddiad cau os nad canol nos yw hwnnw)
Cyhoeddi hysbysiad etholiad	Pob un	Dydd Llun 27 Mawrth fan bellaf
Cyfnod a reoleiddir ar gyfer gwariant ar ymgyrchu gan ymgeiswyr yn dechrau	Pob un	Heb fod yn gynharach na dydd Mawrth 28 Mawrth 2017 ar gyfer ymgeiswyr
Cyflwyno papurau enwebu	Pob un, heblaw etholiadau maerol awdurdod cyfunol	O'r dyddiad a nodwyd ar yr hysbysiad etholiad hyd at 4pm ddydd Mawrth 4 Ebrill
Cyflwyno papurau enwebu	Etholiadau maerol awdurdod cyfunol	Rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad a hyd at 4pm ddydd Mawrth 4 Ebrill
Dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiad yn ôl	Pob un	4pm ddydd Mawrth 4 Ebrill
Cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd	Pob un	Erbyn 4pm ddydd Mercher 5 Ebrill fan bellaf
Dyddiad cau i wneud cais i gofrestru i bleidleisio	Pob un	Dydd Iau 13 Ebrill
Dyddiad cau i wneud cais i bleidleisio drwy'r post	Pob un	5pm ddydd Mawrth 18 Ebrill
Dyddiad cau i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (heblaw pleidlais argyfwng drwy ddirprwy)	Pob un	5pm ddydd Mawrth 25 Ebrill
Y dyddiad cyntaf y gall etholwyr wneud cais am bleidlais bost newydd yn lle pleidlais bost a gollwyd	Pob un	Dydd Iau 27 Ebrill

<b>Digwyddiad</b>	<b>Etholiad</b>	<b>Dyddiad (dyddiad cau os nad canol nos yw hwnnw)</b>
<b>Diwrnod pleidleisio</b>	Pob un	<b>Dydd lau 4 Mai</b>
Y tro olaf y gall etholwyr wneud cais am bleidlais bost newydd yn lle pleidlais bost a ddifethwyd neu a gollwyd	Pob un	5pm ddydd lau 4 Mai
Y dyddiad cau am geisiadau am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy	Pob un	5pm ddydd lau 4 Mai
Proses gyfrif etholiad	Pob un	<b>Disgwylir i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi ddydd Gwener 5 Mai.</b>
Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant ymgeiswyr	Pob un	<b>Datgan canlyniad 4 Mai - 8 Mehefin</b>  <b>Datgan canlyniad 5 Mai - 9 Mehefin</b>

# ADRAN A - Ymgeiswyr

## 3 Dod yn ymgeisydd

### 3.1 Pwy all ddod yn ymgeisydd?

Rhaid i'r canlynol fod yn wir am unrhyw un sydd am fod yn ymgeisydd yn y digwyddiadau pleidleisio ar 4 Mai 2017:

- Yn 18 oed o leiaf ar ddiwrnod enwebiad yr ymgeisydd
- Yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd o un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd

Hefyd, rhaid bodloni o leiaf un o'r pedwar amod cymhwyso canlynol:

- Wedi cofrestru, ac yn parhau i fod wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal awdurdod lleol neu'r ardal awdurdod cyfunol (fel sy'n briodol) y mae'n dymuno sefyll fel ymgeisydd ynddi o ddiwrnod ei enwebiad ymlaen.
- Wedi meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn yr ardal awdurdod lleol neu'r ardal awdurdod cyfunol (fel sy'n briodol) y mae'n dymuno sefyll fel ymgeisydd ynddi fel perchennog neu denant yn ystod y 12 mis cyn y diwrnod y caiff ei enwebu a diwrnod yr etholiad.
- Bod ei brif weithle neu ei unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf cyn y diwrnod y caiff ei enwebu a diwrnod yr etholiad yn yr ardal awdurdod lleol neu'r ardal awdurdod cyfunol (fel sy'n briodol) y mae'n dymuno sefyll fel ymgeisydd ynddi
- Wedi byw yn yr ardal awdurdod lleol neu'r ardal awdurdod cyfunol (fel sy'n briodol) y mae'n dymuno sefyll fel ymgeisydd ynddi yn ystod y 12 mis cyfan cyn y diwrnod y caiff ei enwebu a diwrnod yr etholiad.

### 3.2 A oes unrhyw reolau sy'n atal ymgeisydd rhag sefyll?

Ym mhob achos, mae'r rheolau ar gyfer sefyll etholiad a'r anghymwysiadau sy'n gymwys yn gymhleth. I gael rhagor o arweiniad ar yr hyn sy'n anghymhwyso rhywun rhag sefyll fel ymgeisydd yn etholiadau mis Mai, gweler Rhan 1 o ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid:

- [etholiadau prif ardal](#)
- [etholiadau maerol awdurdod lleol](#)
- [etholiadau maerol awdurdod cyfunol \(heblaw Manceinion Fwyaf\)](#)
- [etholiadau maerol awdurdod cyfunol \(Manceinion Fwyaf yn unig\)](#)

### 3.3 Sut mae rhywun yn dod yn ymgeisydd?

Y dyddiad cynharaf y gall person ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r diwrnod olaf y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad, sef 27 Mawrth 2017.

Bydd person yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y diwrnod hwn os ar neu cyn y dyddiad hwn ei fod eisoes wedi datgan ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad (neu fod rhywun arall wedi datgan ei fod yn ymgeisydd).

Os bydd y datganiad ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad y gwneir y cyfryw ddatganiad, neu ar y dyddiad y bydd yn cyflwyno ei bapurau enwebu, p'un bynnag sydd gyntaf.

### **3.4 Beth sy'n rhaid i rywun sydd am sefyll fel ymgeisydd ei wneud?**

Mae angen i bob darpar ymgeisydd gyflwyno'r canlynol i'r Swyddog Canlyniadau erbyn 4pm ar 4 Ebrill 2017:

- Ffurflen enwebu wedi'i chwblhau
- Ei gydsyniad i'r enwebiad
- Os yw'n sefyll dros blaid wleidyddol gofrestrdig, tystysgrif gan y blaid wleidyddol honno yn ei awdurdodi i sefyll.

Hefyd, mae angen i rai ymgeiswyr gael llofnodwyr i gefnogi eu henwebiad ac ernes fel a ganlyn:

#### **Ymgeiswyr mewn etholiadau prif ardal**

- Llofnodion 10 etholwr cofrestredig o'r ward berthnasol

#### **Ymgeiswyr mewn etholiadau maerol awdurdod lleol**

- Llofnodion 30 o etholwyr cofrestredig o'r awdurdod lleol
- ernes o £500, a gaiff ei dychwelyd os byddant yn cael mwy na 5% o'r pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys

#### **Ymgeiswyr mewn etholiadau maerol awdurdod cyfunol**

- Llofnodion o leiaf 100 o etholwyr cofrestredig yn yr ardal awdurdod cyfunol, gydag o leiaf 10 o bob cyngor cyfansoddol.
- ernes o £5,000, a gaiff ei dychwelyd os byddant yn cael mwy na 5% o'r pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses o sefyll etholiad yng [nghanllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

### **3.5 Pwy yw'r ymgeiswyr?**

Y dyddiad cau i ddarpar ymgeiswyr gyflwyno papurau enwebu yw 4pm ar 4 Ebrill 2017. Bydd y Swyddog Canlyniadau perthnasol yn cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd erbyn 4pm ar 5 Ebrill 2017 fan bellaf. Fel arfer, bydd hwn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Pan fydd hwn wedi'i gyhoeddi, byddwch yn gallu gweld y rhestr lawn o ymgeiswyr.

## 4 Ymgyrchu yn yr etholiad

### 4.1 Beth gall ymgyrchwyr ei ddweud am ei gilydd yn ystod yr ymgyrch?

Fel sy'n wir am bob etholiad, mae'n anghyfreithlon gwneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd er mwyn dylanwadu ar y broses o'i ethol. Mae rheolau am ddifenwi hefyd yn gymwys i ddeunyddiau etholiadol.

Gall yr heddlu ymchwilio i honiadau o'r drosedd etholiadol benodol o wneud datganiad ffug. Mater i'r llysoedd sifil yw difenwi.

Fel gyda phob etholiad, nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw rôl reoliadol mewn perthynas â chynnwys deunydd ymgyrchu neu'r hyn y mae ymgeiswyr yn ei ddweud am ei gilydd.

### 4.2 A oes unrhyw reolau etholiadol ynghylch deunyddiau ymgyrchu?

Oes, yn ôl y gyfraith, rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio "argraffnodau" ar eu holl ddeunydd ymgyrchu argraffedig.

### 4.3 Beth yw "argraffnod"?

Rhaid i'r holl ddeunydd argraffedig (h.y. posteri, hysbyslenni a thafleuni) gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd a'r hyrwyddwr (y sawl a awdurdododd i'r deunydd gael ei argraffu). Rhaid i hyn ddigwydd fel y gall etholwyr fod yn glir ynghylch ffynhonnell y deunydd ymgyrchu. Mae'n drosedd peidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd etholiadol.

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn argymhell bod ymgeiswyr, lle y bo'n bosibl, yn rhoi argraffnod ar eu deunyddiau electronig (h.y. gwefannau, e-byst a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol), ond nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol.

### 4.4 A all ymgeiswyr weld y gofrestr etholiadol?

Gallant. Mae gan ymgeiswyr (pan fyddant yn swyddogol wedi dod yn ymgeiswyr) yr hawl i gael copi, am ddim, o'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o'r bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau'r pleidleiswyr absennol) ar gyfer yr etholaeth y maent yn ymladd yr etholiad ynddi.

Dim ond er mwyn helpu gyda gwaith ymgyrchu y gall ymgeiswyr ddefnyddio'r gofrestr etholiadol lawn ac i gadarnhau bod y rhoddion a gânt yn dod o ffynhonnell a ganiateir.

### 4.5 A oes llyfryn anerchiad etholiadol ar gyfer ymgeiswyr maerol?

Mae gan ymgeiswyr mewn etholiadau maerol awdurdod lleol ac etholiadau maerol awdurdod cyfunol hawl i gynnwys anerchiad etholiadol (neu ddatganiad ymgyrch) mewn llyfryn y bydd y Swyddog Canlyniadau/Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol yn ei anfon at bob etholwr cofrestredig. Rhaid i ymgeiswyr sydd am i'w hanerchiad etholiadol gael ei gynnwys gyfrannu at gostau cynhyrchu'r llyfryn. Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau/Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol dalu'r costau postio.

## 5 Terfynau gwario ymgeiswyr a rheolau ar dderbyn rhoddion

### 5.1 Beth yw'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau mis Mai?

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau maerol awdurdod cyfunol 2017 yn Lloegr ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr yn dechrau ar y **diwrnod ar ôl** i chi ddod yn ymgeisydd yn swyddogol ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef **4 Mai 2017**.

Y dyddiad cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad olaf y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad, sef **dydd Llun 27 Mawrth 2017**.

Byddwch yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad hwn os ydych chi neu eraill eisoes wedi cyhoeddi eich bwriad i sefyll.

### 5.2 Beth yw'r terfynau gwario?

Ar gyfer etholiadau maerol awdurdod cyfunol, mae'r terfyn gwario yn gymwys yn ystod y cyfnod a reoleiddir a chaiff ei gyfrifo gan ddefnyddio swm sylfaenol o **£2,362**

- **wedi'i luosi** â chyfanswm nifer y cynghorau etholaethol,
- **a 5.9c** ar gyfer pob cofnod yn y gofrestr o etholwyr a ddefnyddir yn yr etholiad.

Ar gyfer ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol, caiff y terfyn gwario ei gyfrifo gan ddefnyddio ffigur sylfaenol o **£740**, a **6c** fesul etholwr llywodraeth leol yn y ward lle mae'r ymgeisydd yn sefyll.

### 5.3 Sut mae ymgeiswyr yn gwybod faint o bobl sy'n byw yn yr ardal maent yn sefyll ynddi?

Er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr ac asiantiaid i gyfrifo eu terfyn gwario, bydd y Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol yn gallu rhoi'r canlynol i ymgeiswyr:

- nifer y cynghorau etholaethol yn yr ardal awdurdod cyfunol
- nifer yr etholwyr yn yr ardal awdurdod cyfunol

Rhaid i'r ymgeisydd neu ei asiant wneud cais am y wybodaeth hon yn ysgrifenedig a rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol ei rhoi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn y cais.

### 5.4 Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwario?

Mae gwariant ymgeiswyr yn cynnwys costau:

- Hysbysebion o unrhyw fath. Er enghraifft, poster, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau neu fideos YouTube.
- Deunydd a anfonwyd at bleidleiswyr yn ddigymell. Er enghraifft, llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost a anfonir nad ydynt mewn ymateb i ymholiadau penodol.
- Costau cludiant. Er enghraifft, ceir wedi'u llogi neu gludiant cyhoeddus i ymgyrchwr yr ymgeisydd.
- Cyfarfodydd cyhoeddus
- Costau staff. Er enghraifft, cyflog asiant, neu staff wedi'u secondio gan eu cyflogwyr i chi.
- Swyddfeydd. Er enghraifft, swyddfa ymgyrch.
- Costau gweinyddol. Er enghraifft, biliau ffôn, deunydd ysgrifennu, llungopiau a defnyddio cronfeydd data.

### **5.5 A oes unrhyw weithgareddau nad ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn gwario?**

Oes. Mae gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif yn cynnwys y canlynol:

- unrhyw beth (ac eithrio hysbysebion) sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig
- ystafelloedd cyfarfodydd cyhoeddus
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan eich staff nad ydych yn eu talu amdano
- y defnydd o brif gartref rhywun, a ddarperir am ddim
- y defnydd o gar personol rhywun neu ddull cludiant arall, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol yr unigolyn hwnnw ac a ddarperir am ddim
- cyfarpar cyfrifiadurol cyffredinol a brynir at ddefnydd personol yr ymgeisydd

### **5.6 A oes terfyn ar roddion y gall ymgeisydd etholiad maerol awdurdod cyfunol neu ymgeisydd etholiad llywodraeth leol eu derbyn?**

Nac oes. Fodd bynnag, dim ond rhoddion ariannol neu mewn nwyddau, sy'n werth mwy na £50 sy'n cyfrif tuag at eu gwariant ymgyrchu o ffynhonnell a ganiateir, a leolir yn y DU yn bennaf y gall ymgeiswyr eu derbyn.

Rhaid i bob rhodd sy'n werth mwy na £50 gael ei chyhoeddi ar ffurflen gwariant yr ymgeisydd. Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan rhoddion sydd â gwerth o £50 neu lai ar eu ffurflen gwariant.

## 5.7 Pwy all roi rhoddion i ymgeiswyr?

Gall unrhyw un roi rhodd sy'n werth llai na £50 i ymgeiswyr.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau mai dim ond o ffynhonnell a ganiateir y maent yn derbyn rhoddion sy'n werth mwy na £50. Rhaid i roddion nad ydynt o ffynhonnell a ganiateir gael eu dychwelyd at y rhoddwr o fewn 30 diwrnod. Ar ôl hynny, gall y rhodd gael ei fforffedu.

Diffinnir rhoddwyr a ganiateir yn y DU fel:

- unigolyn ar un o gofrestrau etholwyr y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU

## 5.8 I ba raddau y gall pleidiau gwleidyddol ariannu eu hymgeiswyr?

Mae llawer o bleidiau gwleidyddol yn cynnal 'cronfeydd ymladd' lleol i'w hymgeisydd. Os yw'r gronfa wedi'i rheoli gan y blaid ac nid yr ymgeisydd, yna caiff rhoddion i'r gronfa eu trin fel rhoddion a roddir i'r blaid fel arfer.

Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod a reoleiddir, rhaid adrodd am unrhyw roddion a wnaed gan y blaid i ymgeisydd sy'n fwy na £50 ar ffurflen gwariant yr ymgeisydd.

## 5.9 I bwy y mae ymgyrchwyr yn adrodd am eu gwariant a reoleiddir a phryd?

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno eu ffurflenni gwariant ar ymgyrchu i'w Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol o fewn **35 diwrnod i ddatgan canlyniad yr etholiad**.

Os na eir i unrhyw wariant, rhaid cyflwyno datganiad dim trafodion gan yr ymgeisydd.

## 5.10 Beth sy'n digwydd os bydd ymgyrchydd yn mynd y tu hwnt i'w derfyn gwario?

Fel arfer, gwneir honiadau sy'n berthnasol i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, yn cynnwys gwariant ymgeisydd, i'r heddlu lleol perthnasol eu hystyried.

Er bod gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth â rhannau o'r Ddeddf sy'n ymwneud ag ymgeiswyr ac asiantiaid, nid oes ganddo awdurdod cyfreithiol i ymchwilio i droseddau a rhoi cosbau ar eu cyfer o dan y Ddeddf.

## 6 Twyll etholiadol

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi nifer o droseddau sy'n ymwneud â thwyll etholiadol. Byddai'r heddlu perthnasol ar gyfer yr ardal y cynhelir yr etholiad ynddi yn ymchwilio i unrhyw honiadau fod trosedd wedi cael ei chyflawni.

Mae gan bob heddlu swyddog Pwynt Cyswllt Unigol (a elwir yn SPOC) i arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig ag etholiadau, a fydd yn rhoi cyngor i swyddogion yr heddlu lleol. Dylai unrhyw un sy'n gwneud honiad fod yn barod i roi datganiad i'r heddlu ac ategu eu pryderon. Gall pobl hefyd ddewis cysylltu â Tacle'r Tacle yn ddienw ar 0800 555 111.

**Dylai unrhyw un, gan gynnwys ymgeiswyr, gwleidyddion ac aelodau o'r cyhoedd, sydd â thystiolaeth fod twyll etholiadol yn digwydd, roi gwybod i'r heddlu ar unwaith, gan ddefnyddio'r rhif 101 ar gyfer adegau pan nad oes argyfwng oni fydd y drosedd wrthi'n cael ei chyflawni**

### 6.1 Beth yw'r mathau gwahanol o droseddau pleidleisio?

Mae troseddau'n cynnwys:

#### **Cambersonadu**

Cambersonadu - pan fydd rhywun yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug), naill ai drwy'r post neu mewn gorsaf bleidleisio, yn bersonol neu fel dirprwy. Mae hefyd yn drosedd cynorthwyo, annog neu gaffael cambersonadu.

#### **Dylanwad gormodol / Bygylu**

Mae unigolyn yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu achosi neu fygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn gorfodi neu gymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio.

Gall unigolyn hefyd fod yn euog o gael dylanwad gormodol os bydd yn rhwystro neu'n atal pleidleisiwr rhag arfer ei hawl i bleidleisio - hyd yn oed os na fydd yn llwyddo.

Nid yw dylanwad gormodol yn ymwneud â mynediad ffisegol i'r orsaf bleidleisio yn unig. Er enghraifft, gallai taflen sy'n bygwth defnyddio grym er mwyn cymell pleidleisiwr i bleidleisio mewn ffordd benodol hefyd fod yn ddylanwad gormodol.

#### **Llwgwobrwyo**

Mae rhywun yn euog o lwgrwobrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhoi unrhyw arian neu'n sicrhau unrhyw swydd ar gyfer unrhyw bleidleisiwr neu ar ei ran, er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio dros unrhyw ymgeisydd neu fel arall.

## **Anrhegu**

Mae unigolyn yn euog o anrhegu os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn rhoi neu'n darparu unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio. Mae a wnelo anrhegu â bwriad llygredig - nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.

## **Datganiadau anwir**

Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau anwir am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ethol ymgeisydd mewn etholiad.

Nid yw datganiadau anwir nad ydynt yn ymwneud â chymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall yn anghyfreithlon o dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllibus neu'n athrodus.

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir bwriadol ar bapur enwebu.

## **Troseddau'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy**

Ceir amryw droseddau o ran aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio (boed yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy) pan fo anghymwyster cyfreithiol i bleidleisio a phleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad.

## **Gwybodaeth anwir mewn perthynas â chofrestru a phleidleisio absennol**

Mae'n drosedd darparu gwybodaeth gofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy.

### **6.2 Pa mor hyderus y gall yr etholaeth fod ynghylch pleidleisio drwy'r post?**

Mae pleidleisio drwy'r post ar gais yn fwy diogel ar ôl tynhau'r gyfraith yn 2006 ac fe'i defnyddir gan tua 20% o'r etholaeth yn genedlaethol.

Rhaid i bleidleiswyr drwy'r post ddarparu eu llofnod a'u dyddiad geni pan fyddant yn gwneud cais am bleidlais bost, a hefyd pan fyddant yn bwrw eu pleidlais bost. Caiff y ddau gofnod eu gwirio. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau yn fodlon eu bod yn cyfateb, caiff y papur pleidleisio ei wrthod.

Atgyfnerthwyd y system ymhellach pan gyflwynwyd Cofrestriad Etholiadol Unigol yn 2014. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i gofrestru i bleidleisio ddarparu ei ddyddiad geni a'i rif Yswiriant Gwladol yn gyntaf, cyn mynd ymlaen i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol uchod os bydd am fwrw ei bleidlais drwy'r post.

### **6.3 Sut mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i atal twyll pleidleisiau post?**

Yn ddiweddar, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cytuno gyda phleidiau gwleidyddol i atgyfnerthu ei [God Ymddygiad](#) ar y modd yr ymdrinnir â cheisiadau am bleidleisiau post a phecynnau pleidleisio drwy'r post gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a chanfaswyr. Dywed y cod na ddylai pleidiau nac ymgeiswyr:

- **byth** helpu i gwblhau papur pleidleisio - yn lle hynny, dylai ymgeiswyr bob amser gyfeirio'r pleidleisiwr at staff y Swyddog Canlyniadau a fydd o bosibl yn gallu trefnu ymweliad cartref neu roi cymorth yn yr orsaf bleidleisio.
- **byth** drin na chymryd unrhyw bapur pleidleisio wedi'i gwblhau oddi wrth bleidleiswyr. Yn lle hynny, dylid annog pleidleiswyr i bostio eu pecyn pleidleisio drwy'r post eu hunain - fel arall, gellir cysylltu â staff y Swyddog Canlyniadau i drefnu iddo gael ei gasglu.

Gall rhai Swyddogion Canlyniadau hefyd nodi'r angen i ddatblygu a cheisio cytundeb i ddarpariaethau lleol penodol sy'n ategu telerau'r Cod y cytunwyd arno yn genedlaethol, er mwyn mynd i'r afael â risgiau lleol a nodwyd.

#### **6.4 Beth sy'n digwydd os bydd plaid wleidyddol yn torri'r cod ymddygiad?**

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gofyn i bleidiau gwleidyddol ymchwilio i unrhyw achosion o dorri'r cod y rhoddwyd gwybod amdanynt a chymryd camau i sicrhau na fydd yr un broblem yn codi eto. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau disgyblu o bosibl yn erbyn aelodau'r blaid.

#### **6.5 Pwy sy'n gyfrifol am roi cynlluniau ar waith i ddelio â thwyll etholiadol?**

Y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob etholaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb am sicrhau bod cynlluniau cadarn ar waith i atal a chanfod twyll. Rhaid iddynt weithio'n agos gyda'r heddlu lleol.

Cyhoeddwyd [canllawiau](#) i gefnogi swyddogion yr heddlu a SPOCs wrth iddynt roi cynlluniau ar waith i atal a chanfod twyll etholiadol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllawiau hyn, sy'n adeiladu ar waith a gynhaliwyd gynt gan y Comisiwn Etholiadol a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bellach yn rhan o Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

#### **6.6 Beth mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i atal twyll yn etholiadau 2017?**

Mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos iawn gyda Swyddogion Canlyniadau a heddluoedd lleol mewn ardaloedd lle bu honiadau o dwyll etholiadol mewn etholiadau blaenorol, a lle y gall fod angen rhoi mesurau ychwanegol felly ar waith. Rydym yn hyderus bod Swyddogion Canlyniadau a heddluoedd lleol yn yr ardaloedd hyn yn adeiladu ar eu profiad i roi cynlluniau cadarn ar waith, ac rydym yn eu cefnogi drwy rannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer da er mwyn helpu i atgyfnerthu eu cynlluniau hyd at etholiadau mis Mai a thu hwnt i hynny.

Rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- eu cynlluniau ar gyfer delio â cheisiadau cofrestru a phleidleisio absennol (er enghraifft, sicrhau bod eiddo lle mae nifer fawr o bobl wedi gwneud cais i fod ar y gofrestr etholiadol yn cael eu gwirio)
- bod trefniadau ar waith gyda'r heddlu perthnasol ar gyfer nodi ac ymateb i dwyll etholiadol posibl
- bod hyfforddiant ar gael ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio ar y risg o gamberonadu

## 6.7 Cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol adroddiad yn ymchwilio i dwyll mewn rhai cymunedau yn Ne Asia. Beth a wneir cyn yr etholiadau ym mis Mai 2017 i sicrhau nad oes twyll yn cael ei gyflawni yn y cymunedau hynny?

Nododd [adroddiad y Comisiwn](#) gyfuniad o ffactorau sy'n golygu bod rhai etholwyr o gymuned De Asia yn agored i dwyll, yn cynnwys:

- rhwydweithiau cymunedol cryf sy'n agored i gael eu twyllo gan ymgyrchwyr diegwyddor
- lefelau isel o ymwybyddiaeth o beth sy'n weithgarwch ymgyrchu derbyniol a lefelau isel o ymwybyddiaeth ynghylch sut i adrodd am dwyll etholiadol
- llai o weithgarwch gan bleidiau gwleidyddol mewn rhai ardaloedd a all fod wedi gwneud pobl yn fwy agored i gael eu twyllo drwy alluogi rhwydweithiau cymunedol i gyfryngu rhwng ymgyrchwyr a phleidleiswyr.

Mae'r Comisiwn wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau i'w defnyddio gan Swyddogion Canlyniadau a heddluoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o beth sy'n ymddygiad derbyniol ar adeg etholiadau. Mae deunyddiau hefyd wedi cael eu cyfieithu er mwyn helpu pobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio gyda Taclo'r Tacle i sicrhau y gall pobl adrodd am bryderon ynghylch twyll etholiadol yn ddiennw drwy ffonio 0800 555 111. Mae hyn yn cynnwys gallu darparu gwybodaeth mewn iaith arall drwy wasanaeth cyfieithu.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [canllawiau manwl](#) er mwyn helpu pob Swyddog Canlyniadau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban i roi cynlluniau ar waith i atal a chanfod twyll etholiadol. **Ond, yr un mor bwysig, rhaid i ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol sicrhau nad yw eu cefnogwyr yn croesi'r llinell rhwng ymgyrchoedd cadarn a bywiog a thwyll etholiadol.**

# ADRAN B - Y pleidleisiwr

## 7 Cofrestru i bleidleisio

### 7.1 Pwy all bleidleisio yn etholiadau 4 Mai?

Gall person bleidleisio os yw wedi cofrestru ar gofrestr y llywodraeth leol mewn ardal lle y cynhelir etholiadau; a'i fod:

- Yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio
- Yn ddinesydd Prydeinig
- Yn ddinesydd Gwyddelig, yr UE neu'n ddinesydd cymwys yn un o wledydd y Gymanwlad

Ni all dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor sydd wedi cofrestru fel etholwyr dramor bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Mae pleidleisiwyr yn y lluoedd arfog sy'n gwasanaethu dramor dal yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.

### 7.2 Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau ar 4 Mai?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru yw **Dydd Iau 13 Ebrill 2017**.

### 7.3 Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost yw **5pm ddydd Mawrth 18 Ebrill 2017**.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, heblaw mewn argyfwng, yw **5pm ddydd Mawrth 25 Ebrill 2017**.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy o ganlyniad i argyfwng yw **5pm dydd Iau 4 Mai 2017**.

### 7.4 Sut y gall rhywun gofrestru i bleidleisio?

Gall pleidleisiwyr fynd ar-lein i gofrestru yn [www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio).

Gall pobl wneud cais o hyd drwy gwblhau ffurflen gofrestru bapur os oes well ganddynt. Gallant gysylltu â'u swyddfa cofrestru etholiadol leol i ofyn am ffurflenni neu gallant eu lawrlwytho [yma](http://yma).

### 7.5A all rhywun gofrestru mewn dau gyfeiriad gwahanol?

Gall. Gall rhywun gofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un cyfeiriad, cyhyd â'i fod yn preswyllo ym mhob cyfeiriad. Fodd bynnag, dim ond unwaith y gall bleidleisio yn yr un etholiad.

### 7.6 Sut mae aelodau o'r lluoedd arfog yn cofrestru ac yn pleidleisio?

Gall aelodau o'r lluoedd arfog a'u gwŷr neu wragedd neu bartneriaid sifil, sy'n gwasanaethu yn y DU neu dramor, gofrestru naill ai yn eu cyfeiriad cartref neu yn eu barics yn y ffordd arferol, neu fel 'pleidleisiwr o'r lluoedd arfog'. Bydd pleidleisiwyr o'r

lluoedd arfog yn llenwi datganiad y lluoedd arfog er mwyn sicrhau y gallant gofrestru pan fyddant oddi cartref ar ddyletswydd.

### **7.7 A all carcharorion bleidleisio?**

Gall carcharorion remand (y rhai na chafodd eu collfarnu a'u dedfrydu) bleidleisio. Ni all carcharorion euog a gafodd eu cadw yn y ddalfa oherwydd eu dedfryd bleidleisio.

## **8 Y broses bleidleisio**

### **8.1 Pryd bydd y gorsaf bleidleisio yn agor?**

Bydd pob gorsaf bleidleisio yn agor am 7am ac yn cau am 10pm.

### **8.2 Beth sy'n digwydd os bydd rhywun mewn ciw i fynd i mewn i orsaf bleidleisio am 10pm?**

Bydd unrhyw bleidleisiwr sy'n cyrraedd ei orsaf bleidleisio cyn 10pm ac sydd mewn ciw yn aros i bleidleisio am 10pm, **yn gallu pleidleisio**.

Newidiwyd y ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU yn 2013 er mwyn galluogi hyn i ddigwydd yn dilyn argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol.

### **8.3 Pa system bleidleisio a ddefnyddir mewn etholiadau maerol?**

Os mai dim ond dau ymgeisydd sy'n sefyll yr etholiad, caiff y maer ei ethol o dan y system etholiadol 'y cyntaf i'r felin', lle caiff yr ymgeisydd sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau ei ethol.

Os oes mwy na dau ymgeisydd, caiff y maer ei ethol o dan y system pleidlais atodol. Gall pleidleiswyr bleidleisio dros yr ymgeisydd dewis cyntaf ac ail ddewis y maent am iddo gael ei ethol.

### **8.4 Sut y dylai pleidleiswyr gwblhau eu papur pleidleisio ar gyfer etholiadau maerol?**

Os oes mwy na dau ymgeisydd, caiff y maer ei ethol o dan y system pleidlais atodol. Gall pleidleiswyr fwrw pleidlais ar gyfer dewis cyntaf ac ail ddewis o restr o ymgeiswyr a fydd naill ai'n rhan o blaid wleidyddol neu'n sefyll fel ymgeisydd annibynnol.

Bydd y papur pleidleisio yn rhestru pob ymgeisydd a bydd pleidleiswyr yn pleidleisio dros eu hymgeisydd dewis cyntaf drwy nodi 'X' yn y golofn dewis cyntaf ac yn pleidleisio dros eu hymgeisydd ail ddewis drwy nodi 'X' yn y golofn ail ddewis. Os bydd ymgeisydd yn cael mwy na 50% o'r pleidleisiau dewis cyntaf, caiff ei ethol. Os na fydd unrhyw ymgeisydd yn cael mwy na 50% o'r pleidleisiau dewis cyntaf, bydd enw pob ymgeisydd heblaw am y rhai yn y safle cyntaf neu'r ail safle yn cael ei dynnu o'r cyfrif. Caiff y papurau pleidleisio sy'n dangos ffafriaeth dros un o'r ymgeiswyr a gafodd ei dynnu o'r cyfrif eu gwirio ar gyfer eu hail ffafriaeth. Yna caiff unrhyw bleidleisiau ail

ffafriaeth ar gyfer y ddau ymgeisydd sy'n weddill eu hychwanegu at eu pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a chaiff yr ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau ei ethol.

### **8.5 Pa system bleidleisio a ddefnyddir yn yr etholiadau llywodraeth leol?**

Y system etholiadol a ddefnyddir i ethol cynghorwyr yw 'y cyntaf i'r felin'. O dan y system hon, caiff yr ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau ei ethol yn gyntaf, yna, os bydd angen, caiff yr ymgeisydd â'r nifer fwyaf ond un o bleidleisiau ei ethol, ac yna'r ymgeisydd yn y trydydd safle. Nid oes angen i unrhyw ymgeisydd gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.

Os bydd nifer gyfartal o bleidleisiau, caiff ymgeisydd ei ddewis drwy dynnu enwau ar hap (h.y. dull o ddewis ar hap fel taflu ceiniog neu dynnu enw allan o het).

### **8.6 Sut y dylai pleidleiswyr gwblhau eu papur pleidleisio ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol?**

Gall pleidleiswyr ddewis o restr o ymgeiswyr ar y papur pleidleisio a fydd naill ai'n rhan o blaid wleidyddol neu'n sefyll fel ymgeisydd annibynnol. Er mwyn bwrw pleidlais, dylai pleidleisiwr roi X (croes) wrth ochr yr un ymgeisydd y mae am bleidleisio drosto.

### **8.7 Pa ffyrdd gwahanol sydd i rywun bleidleisio yn yr etholiadau hyn?**

Gall pobl ddewis pleidleisio mewn un o dair ffordd: yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy.

### **8.8 Yn bersonol**

Gall pleidleiswyr cofrestredig fynd i'w **gorsaf bleidleisio** leol rhwng 7am a 10pm ddydd Iau 4 Mai i fwrw eu pleidlais. Dylai pleidleiswyr neilltuo digon o amser er mwyn sicrhau eu bo dyn lleisio eu barn.

- Cyn y diwrnod pleidleisio, anfonir 'cerdyn pleidleisio' at bleidleiswyr sy'n cynnwys manylion am leoliad eu gorsaf bleidleisio.
- Dim ond yn yr orsaf bleidleisio a nodir ar y cerdyn hwn y gall pleidleiswyr bleidleisio.
- Bydd staff gorsafoedd pleidleisio wrth law i egluro'r papur(au) pleidleisio a sut i bleidleisio.
- Nid oes angen i etholwyr fynd â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio ond bydd gwneud hynny yn cyflymu'r broses.

### **8.9 Drwy'r post**

Os na fydd pleidleiswyr am fynd i orsaf bleidleisio, neu os na fyddant yn gallu gwneud hynny, gallant wneud cais am bleidlais bost. Gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais bost ar gyfer etholiad penodol, cyfnod penodol o amser, neu ar gyfer pob etholiad.

Er mwyn pleidleisio drwy'r post, bydd angen i etholwyr cofrestredig wneud cais am bleidlais bost cyn 5pm ddydd Mawrth 18 Ebrill 2017.

- Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu hanfon yn uniongyrchol at bleidleiswyr wythnos cyn y diwrnod pleidleisio.
- Dylai pleidleiswyr gwblhau eu papurau pleidleisio a'u dychwelyd ar unwaith, er mwyn iddynt gyrraedd cyn 10pm ddydd Iau 4 Mai.
- Ni chaiff pleidleisiau sy'n cyrraedd ar ôl 10pm ddydd Iau 4 Mai eu cyfrif. Yr unig eithriad yw os bydd rhywun mewn ciw mewn gorsaf bleidleisio am 10pm er mwyn dychwelyd pleidlais bost a gwblhawyd. Yn yr achos prin hwnnw, gellir dychwelyd y bleidlais bost ar ôl 10pm.
- Os na fydd pleidleiswyr yn caniatáu digon o amser i bostio eu pleidlais, gallant fynd â hi i orsaf bleidleisio yn eu hardal bleidleisio rhwng 7am a 10pm ar y diwrnod pleidleisio.
- Rhaid i bleidleiswyr hefyd gofio cwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post - gyda'u llofnod a'u dyddiad geni neu ni chaiff eu pleidlais ei chyfrif.

### 8.10 Drwy ddirprwy

Gall pleidleiswyr hefyd gofrestru ar gyfer '**pleidlais drwy ddirprwy**'. Mae hyn yn golygu eu bod yn gofyn i rywun y maent yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eu rhan dros yr ymgeisydd y maent am bleidleisio drosto. Bydd angen iddynt gwblhau a llofnodi ffurflen a'i dychwelyd i'w swyddfa gofrestru etholiadol leol erbyn 5pm ddydd Mawrth 25 Ebrill 2017

### 8.11 A oes raid defnyddio pensiliau mewn gorsafoedd pleidleisio? A ellir defnyddio peniau yn lle hynny?

Nid oes dim yn y gyfraith sy'n nodi p'un a ddylid defnyddio peniau neu pensiliau i farcio papur pleidleisio. Defnyddiwyd pensiliau i farcio papurau pleidleisio am resymau ymarferol: er enghraifft, gyda pheniau inc mae siawns y gall yr inc sychu neu ollwng. Hefyd, gall peth o inc y marc y mae'r pleidleisiwr wedi ei wneud ar y papur pleidleisio drosglwyddo i ran arall pan gaiff ei blygu, gan arwain, o bosibl, at wrthod y papur am ei fod yn edrych fel petai'r pleidleisiwr wedi pleidleisio dros fwy o ymgeiswyr na'r hyn a ganiateir. Os bydd pleidleisiwr yn dymuno gwneud hynny, gall ddefnyddio pen i farcio ei bapur pleidleisio.

### 8.12 A all pleidleiswyr gymryd hunluniau neu ffotograffau eraill yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â chael gwybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio a datgelu gwybodaeth o'r fath yn gymhleth. O ystyried y risg y bydd rhywun sy'n tynnu llun y tu mewn i orsaf bleidleisio yn torri'r gyfraith o bosibl, p'un a yw hynny'n fwriadol

ai peidio, ein cyngor yw na ddylid tynnu unrhyw luniau y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

### **8.13 A yw'n iawn i rywun dynnu llun o'i bleidlais bost a'i roi ar y cyfryngau cymdeithasol i ddangos sut mae wedi pleidleisio?**

Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu trin yn wahanol mewn cyfraith etholiadol, o gymharu â phapurau pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Gall rhywun sy'n pleidleisio drwy'r post dynnu llun o'i bapur pleidleisio drwy'r post ei hun a'i gyhoeddi (yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol).

Fodd bynnag, er y gall yr unigolyn sy'n pleidleisio drwy'r post ei hun gyhoeddi'r wybodaeth, pe bai rhywun arall yn ei ddarbwylllo neu'n ei annog i rannu'r wybodaeth hon, byddai'n cyflawni trosedd. Os oes unrhyw awgrymiadau neu honiadau y gallai hyn fod yn digwydd, dylid cynghori'r unigolyn sy'n gwneud y gŵyn i hysbysu'r heddlu am hyn

## 9 Herio'r canlyniad

### 9.1 A ellir herio'r canlyniad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi?

Gall rhywun herio canlyniad etholiad drwy gyhoeddi deiseb etholiadol. Mae'n gam cyfreithiol a chaiff ei ddyfarnu gan farnwr mewn llys.

Fel arfer, rhaid cyflwyno deiseb mewn etholiad llywodraeth leol o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd yr etholiad. Gellir caniatáu rhagor o amser o dan amgylchiadau penodol.

Hefyd, ceir proses farnwrol ar wahân ar gyfer herio'r broses o ethol cynghorwr, maer awdurdod cyfunol, neu faer awdurdod lleol ar y sail eu bod wedi'u hanghymwysu ar y pryd neu yn y gorffennol, drwy wneud cais i'r Uchel Lys.

Ceir rhagor o wybodaeth am herio canlyniad etholiad yn Rhan 6 ein Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid ar gyfer:

- [etholiadau prif ardal](#)
- [etholiadau maerol awdurdod cyfunol](#)
- [etholiadau maerol awdurdod lleol](#)

## 10 Codi ymwybyddiaeth o gofrestrriad pleidleiswyr

### 10.1 Beth mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal y gofrestr etholiadol ar gyfer eu hardal awdurdod lleol ac yn arwain yr ymdrechion i gael cymaint o bobl â phosibl ar y cofrestrau.

Bydd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynlluniau manwl ar waith i godi ymwybyddiaeth o gofrestrriad pleidleiswyr yn eu hardaloedd. Bydd y cynlluniau hyn hefyd yn nodi sut y byddant yn annog grwpiau sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio i wneud hynny cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau hysbysebu er mwyn cyrraedd eu trigolion lleol, yn cynnwys anfon llythyrau i gartrefi yn annog pobl i gofrestru i bleidleisio ac mae llawer wedi datblygu partneriaethau ag ysgolion a cholegau lleol i annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio.

### 10.2 Beth mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Bydd ymgyrch y Comisiwn cyn etholiadau mis Mai yn codi ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau pleidleisio ledled Prydain Fawr gyda'r nod o sicrhau bod pleidleiswyr yn deall sut i gofrestru i bleidleisio a chwblhau eu papur pleidleisio.

Yn ogystal ag ymgyrch hysbysebu a gynhelir ar sianelau teledu, radio a digidol, ac a ategir gan weithgarwch cysylltiadau cyhoeddus er mwyn lledaenu'r neges yn genedlaethol drwy'r cyfryngau, mae'r Comisiwn yn rhoi adnoddau enghreifftiol i awdurdodau lleol eu defnyddio fel rhan o'u gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd.

Dechreuwyd ar y cam cyntaf o hysbysebu ar-lein ar 20 Chwefror cyn ei lansio yn llawn ar 6 Mawrth. Bydd yr hysbysebion teledu, fideo ar alw a radio yn dechrau o 20 Mawrth, a bydd yr holl hysbysebion i annog pleidleiswyr i gofrestru yn dod i ben ar y dyddiadau cau perthnasol ar gyfer cofrestru.

Defnyddir cyfuniad o hysbysebion wedi'u diweddarau o ymgyrchoedd blaenorol (yn cynnwys ein hysbyseb 'What?' lwyddiannus), a defnyddir datblygiad creadigol hollol newydd ar gyfer ein hysbysebion digidol a phrint yn ystod yr ymgyrch hon. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar thema newydd: 'Mae'r etholiadau lleol yn digwydd ar garreg eich drws'.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi llunio briff i'r Senedd ar ein hymgyrch i gael pleidleiswyr i gofrestru a gallwch ei weld ar ein gwefan [yma](#).

### 10.3 Sut y gall sefydliadau eraill helpu i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Fel ym mhob etholiad diweddar, bydd y Comisiwn Etholiadol yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner - o'r sector corfforaethol, cyhoeddus a gwirfoddol - er mwyn ceisio cyrraedd pleidleiswyr o grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol yn draddodiadol a'u hannog i gofrestru i bleidleisio.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio amrywiaeth o adnoddau a phecyn cymorth am ddim sy'n cynnig awgrymiadau ymarferol i sefydliadau sydd am redeg eu hymgyrchoedd cofrestru eu hunain neu weithgarwch arall cyn y digwyddiadau pleidleisio eleni. Mae pob un o'r rhain ar gael ar y wefan [yma](#).

#### **10.4 Pa wybodaeth fydd pleidleiswyr mewn ardaloedd lle cynhelir etholiadau maerol awdurdod lleol ac etholiadau maerol awdurdod cyfunol yn ei chael?**

Mae Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am greu llyfryn gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer eu hetholiad maerol awdurdod lleol perthnasol.

Mae Swyddogion Canlyniadau Awdurdod Cyfunol yn gyfrifol am greu llyfryn gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer eu hardal a bydd hwn hefyd ar gael fel PDF y gellir ei lawrlwytho i'w ddarllen neu ei argraffu.

# ADRAN C - Digwyddiadau cyfrif

## 11 Y cyfrif a datgan y canlyniadau

### 11.1 Pwy sy'n gyfrifol am y cyfrif?

Y Swyddog Canlyniadau Llywodraeth Leol neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol sy'n bennaf cyfrifol am gyfrif y pledleisiau yn ei etholiad perthnasol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Swyddogion Llywyddu yn cludo blychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio i leoliad y cyfrif mewn modd diogel ac amserol; a bod y sawl a gaiff eu recriwtio i gyfrif papurau pleisleisio wedi'u hyfforddi'n dda o ran sut y dylent gyflawni eu dyletswyddau.

Mewn etholiadau maerol awdurdod cyfunol, Swyddogion Canlyniadau Awdurdod Cyfunol sy'n gyfrifol am goladu cynnwys y datganiadau dilysu lleol a'r cyfansymiau cyfrif ar gyfer pob ardal bleidleisio, a chyfrifo a datgan y canlyniad cyffredinol ar gyfer yr ardal awdurdod cyfunol. Cyfrifoldeb pob Swyddog Canlyniadau Awdurdod Cyfunol fydd penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r broses hon yn ei ardal awdurdod cyfunol.

### 11.2 Pryd bydd y cyfrif yn dechrau?

Dylai'r swyddog canlyniadau perthnasol gymryd camau rhesymol i ddechrau cyfrif y pledleisiau a fwriwyd ar y papurau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio. Bydd y cyfnod pleidleisio'n dod i ben am 10pm.

### 11.3 Sut y byddaf yn gwybod pryd y caiff y canlyniadau eu datgan mewn ardaloedd gwahanol?

Bydd y Comisiwn yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth gan swyddogion canlyniadau ynghylch ble y cynhelir eu digwyddiadau cyfrif a'r amseroedd datgan rhagamcanol. Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, byddwn yn diweddarau gwefan y Comisiwn a'r llawlyfr hwn.

### 11.4 Pwy sydd â hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif?

Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif:

- Y Swyddog Canlyniadau perthnasol a'i staff
- ymgeiswyr ac un gwestai
- asiantiaid etholiadau (mewn cyfrif etholiad maerol awdurdod cyfunol, gall is-asiant hefyd fynychu os yw'n gweithredu yn lle asiant etholiad)
- asiantiaid cyfrif
- cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig
- y maer etholedig (dim ond mewn cyfrifon etholiadau maerol awdurdod lleol)
- unrhyw unigolyn arall a gaiff ganiatâd gan y swyddog cyfrif i fod yn bresennol

Rhaid i aelodau o'r cyfryngau a ffotograffwyr sydd am fod yn bresennol mewn cyfrif gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau perthnasol i ofyn am ganiatâd i fod yn bresennol yn y cyfrif ac adeg datgan y canlyniadau

## 11.5 Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif a'r canlyniadau eu cyhoeddi?

Mae pedwar cam i'r broses gyfrif.

### 1) Derbyn blychau pleidleisio

- Bydd blychau pleidleisio drwy'r post a blychau pleidleisio o'r gorsafodded pleidleisio yn cyrraedd lleoliad y cyfrif.

### 2) Dilysu

- Bydd staff yn cyfrif y papurau pleidleisio drwy'r post ac yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r niferoedd a gofnodwyd gan y Swyddog Canlyniadau.
- Bydd staff hefyd yn cyfrif y papurau pleidleisio o bob gorsaf bleidleisio. Byddant yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau a ddsbarthwyd, fel y cofnodwyd ar gyfrifon papurau pleidleisio'r Swyddog Llywyddu.
- Bydd y Swyddog Canlyniadau yn llunio datganiad yn dangos faint o bapurau pleidleisio a dderbyniwyd o gymharu â faint o bapurau pleidleisio a ddisgwyliwyd.

### 3) Cyfrif y pleidleisiau

#### **Pob etholiad maerol heblaw etholiadau maerol â thri ymgeisydd neu fwy**

- Bydd staff yn rhannu'r papurau pleidleisio yn ôl ymgeisydd.
- Bydd staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd.
- Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhannu'r canlyniad dros dro ag ymgeiswyr a'u hasiantiaid. Ar y cam hwn, gall ymgeisydd neu asiant ofyn iddynt ailgyfrif y pleidleisiau. Gall y Swyddog Canlyniadau wrthod y cais os bydd yn credu bod hynny'n afresymol.

#### **Etholiadau maerol â thri ymgeisydd neu fwy**

- Bydd staff yn rhannu'r papurau pleidleisio fesul ymgeisydd yn ôl y dewis cyntaf.
- Yna, bydd staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau dewis cyntaf a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd.
- Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhannu'r canlyniad dros dro ag ymgeiswyr a'u hasiantiaid. Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, dyma fydd y cyfanswm lleol dros dro. Ar y cam hwn, gall ymgeisydd neu asiant ofyn iddynt ailgyfrif y pleidleisiau. Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, dim ond ar lefel

awdurdod lleol y gellir gofyn i bleidleisiau gael eu hailgyfrif; ni chaniateir i bleidleisiau ar gyfer ardal awdurdod cyfunol gyfan gael eu hailgyfrif. Gall y Swyddog Canlyniadau wrthod y cais os bydd yn credu bod hynny'n afresymol.

- Os bydd ymgeisydd yn cael mwy na 50% o'r pleidleisiau dewis cyntaf drwy'r awdurdod lleol cyfan (ar gyfer etholiadau maerol awdurdod lleol) neu drwy'r awdurdod cyfunol cyfan (ar gyfer etholiadau maerol awdurdod cyfunol), datgenir eu bod wedi'u hethol.
- Os na fydd unrhyw ymgeisydd yn cael mwy na 50% o'r pleidleisiau dewis cyntaf, bydd y ddau ymgeisydd ar y brig (neu fwy os ydynt yn gyfartal) yn parhau i ymladd yr etholiad ond caiff enwau'r gweddill eu dileu.
- Nawr, caiff y papurau pleidleisio ar gyfer yr ymgeiswyr a gafodd eu tynnu o'r cyfrif eu rhannu yn ôl eu hail ddewis.
- Yna, bydd staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau ail ddewis ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n weddill a chaiff y ffigur hwn ei ychwanegu at y pleidleisiau dewis cyntaf
- Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhannu'r canlyniad dros dro â'r ymgeiswyr sy'n weddill a'u hasiantiaid. Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, dyma fydd y cyfanswm lleol dros dro. Ar y cam hwn, gall ymgeisydd neu asiant ofyn iddynt ailgyfrif y pleidleisiau. Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, dim ond ar lefel awdurdod lleol y gellir gofyn i bleidleisiau gael eu hailgyfrif; ni chaniateir i bleidleisiau ar gyfer ardal awdurdod cyfunol gyfan gael eu hailgyfrif. Gall y Swyddog Canlyniadau wrthod y cais os bydd yn credu bod hynny'n afresymol.

#### 4) Datgan y canlyniad

##### **Pob etholiad maerol heblaw etholiadau maerol â thri ymgeisydd neu fwy**

- Bydd y Swyddog Canlyniadau'n datgan nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd ac yna'n cyhoeddi bod yr ymgeisydd/ymgeiswyr â'r nifer fwyaf o bleidleisiau wedi'i iawn/wedi'u hiawn ethol.

##### **Etholiadau maerol â thri ymgeisydd neu fwy**

- Bydd y Swyddog Canlyniadau'n datgan nifer y pleidleisiau dewis cyntaf ac ail ddewis a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd sy'n weddill ac yna'n cyhoeddi bod yr ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau dewis cyntaf ac ail ddewis wedi'i iawn ethol.

**Mewn ardaloedd lle y cynhelir etholiadau maerol awdurdod cyfunol, y swyddog canlyniadau awdurdod cyfunol fydd yn gyfrifol am goladu cynnwys y datganiadau dilysu lleol a'r cyfansymiau cyfrif ar gyfer pob cyngor cyfansoddol, yn ogystal â chyfrifo a datgan y canlyniad cyffredinol ar gyfer yr ardal awdurdod cyfunol. Gall ymgeiswyr a'u hasiantiaid ofyn i'r swyddog canlyniadau awdurdod cyfunol ailgyfrif y canlyniad. Dim ond ar lefel yr ardal leol y gellir gofyn i bleidleisiau gael eu hailgyfrif; ni chaniateir i bleidleisiau ar gyfer ardal awdurdod cyfunol gyfan gael eu hailgyfrif. Gall y swyddog canlyniadau awdurdod cyfunol wrthod y cais os bydd yn credu bod hynny'n afresymol.**

## **11.6 Beth sy'n digwydd gyda papurau pleidleisio a ddifethwyd?**

Unwaith y bydd cam dilysu'r cyfrif wedi'i gwblhau, caiff y papurau pleidleisio eu rhannu yn ôl ymgeisydd a chaiff unrhyw bapurau pleidleisio amheus eu nodi. Bydd y swyddog canlyniadau yn cyflwyno dyfarniad ynghylch unrhyw bapurau pleidleisio amheus ym mhresenoldeb ymgeiswyr ac asiantiaid ac mae'r Comisiwn wedi rhoi canllawiau i'w helpu i wneud hyn.

Caiff papurau pleidleisio a ddifethwyd eu selio ar wahân i bapurau pleidleisio eraill ac yna bydd y swyddog canlyniadau yn cyhoeddi sawl papur pleidleisio a wrthodwyd ar ôl iddo gyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

## **11.7 Sut mae'r broses o agor pleidleisiau post yn rhan o'r broses hon?**

Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn agor pleidleisiau post cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal â'r diwrnod pleidleisio ei hun.

Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi rhybudd o 48 awr o leiaf yn nodi pryd a ble y cynhelir y sesiynau. Ym mhob sesiwn agor, bydd y swyddog canlyniadau yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenrol ac sydd yn eu cofnodion. Os na fydd y swyddog canlyniadau yn fodlon eu bod yn cyfateb, caiff y bleidlais ei gwrthod.

Gall ymgeiswyr arsylwi'r broses neu benodi asiant pleidleisiau post i wneud hynny. Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor geisio edrych ar farciau na rhifau adnabod ar bapurau pleidleisio, datgelu sut y cafodd papur pleidleisio penodol ei farcio na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a ddeilliodd o'r sesiwn.

Rhoddir pob papur pleidleisio dilys yn y blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarthu i leoliad y cyfrif er mwyn eu cyfrif ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio.

## **11.8 A allaf ffilmio mewn digwyddiadau cyfrif?**

Dylai unrhyw un sydd am fod yn bresennol mewn digwyddiadau cyfrif a ffilmio ynddynt geisio caniatâd y Swyddog Canlyniadau perthnasol ymlaen llaw.

## **11.9 Ble y cynhelir y digwyddiadau cyfrif?**

Bydd y Comisiwn yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth gan swyddogion canlyniadau ynghylch ble y cynhelir eu digwyddiadau cyfrif a'r amseroedd datgan rhagamcanol. Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, byddwn yn diweddarau gwefan y Comisiwn a'r llawlyfr hwn.